

Cwrs Plant yn Y Bala

Mai 13–15, 2016

Bydd cyfle i blant yr Ofalaeth fynd i aros yng Ngholeg y Bala ym mis Mai, o nos Wener, Mai 13 hyd amser cinio dydd Sul, Mai 15.

Mae'r cwrs hwn wedi ei drefnu ar y cyd â Gofalaeth Llanrug a Bethel ers sawl blwyddyn erbyn hyn, a dyna'r trefniant ar gyfer eleni eto.

Mae croeso i blant Carmel a Bethlehem ymuno â ni os ydynt yn dymuno hynny.

Mae'r cwrs ar gyfer plant 8 i 12 oed, sef plant Blwyddyn 3 i 6 (ond mae'n rhaid eu bod wedi cael eu pen blwydd yn 8 oed erbyn dyddiad y cwrs, yn ôl rheolau'r Coleg).

Bwriedir trefnu bws eleni eto i fynd â'r plant i'r Bala ac yn ôl.

Mae hwn wedi bod yn gwrs poblogaidd dros y blynyddoedd, ac mae'r plant wedi mwynhau eu hunain arno. Mae'n gyfle iddynt ddysgu am Iesu Grist trwy bob math o wahanol weithgareddau. Bydd cyfle hefyd i fynd i nofio yn y pwl nofio yng Nghanolfan Hamdden y dref ac i wyluo ffilm yn y Coleg ar y nos Sadwrn.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Sul y Pasg, Mawrth 27: Gwasanaethir

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 20 (Sul y Blodau)

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 27 (Sul y Pasg)

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Ebrill 3

3.30 p.m. - Y Gweinidog

am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Gwener y Groglith, Mawrth 25: Gwasanaeth Cymun am 10.00 o'r gloch.
Sul y Pasg, Mawrth 27: Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

REHOBOTH

Sul y Pasg, Mawrth 27: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Mawrth 24: Bwrlwm am 2.00 o'r gloch.

Sul y Pasg, Mawrth 27: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Mawrth 21: Y Te Bach am 2.30 o'r gloch.

Nos Fawrth, Mawrth 22: 'Darganfod y Ffordd Adref' - Cyfle i feddwl am y Pasg yng nghwmni Casi Jones, am 7.30 o'r gloch.

Nos Wener, Mawrth 18: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Sul y Pasg, Mawrth 27: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener y Groglith, Mawrth 18: 'Pasg yn y Parc' ym Mharc Glynllifon rhwng 12.00 a 2.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 20 (Sul y Blodau)

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mawrth 27 (Sul Pasg)

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Ebrill 3

10.00 a.m. - Mr John H Hughes

5.00 p.m. - Oedfa



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 675: Sul y Blodau, 20 Mawrth, 2016

Brenin Un Diwrnod

Yn ôl y sôn, brenin un diwrnod oedd Saul. Nid Saul yr Hen Destament, a fu yn frenin Israel am oddeutu deugain mlynedd, ond Saul Wahl, Iddew o'r Eidal a ddaeth yn frenin Gwlad Pwyl a Lithuania am un diwrnod yn unig yn 1586. Mae'n stori gymhleth a dieithr; a pha mor wir bynnag ydyw, mae'n stori hynod o ddiddorol.

Yn ôl y stori, roedd y Tywysog Radzivil, Prif Weinidog Gwlad Pwyl, wedi teithio i'r Eidal; a phan oedd yn gyfyng arno yn ninas Padua roedd wedi cael help mawr gan dad Saul, a oedd yn arweinydd Iddewig y ddinas. Er mwyn talu'n ôl iddo am ei haelioni, addawodd Radzivil y byddai'n gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau fod Iddewon yn cael eu trin yn well yng Ngwlad Pwyl, ac addawodd ddarparu arian mawr i helpu Iddewon y wlad. Cytunwyd y byddai Saul, a oedd yn astudio yng Ngwlad Pwyl ar y pryd, yn gofalu am drosglwyddo'r arian hwnnw i'w dad, i'w ddefnyddio er lles tlodion Iddewig Gwlad Pwyl. Buan iawn y daeth Radzivil i edmygu Saul am ei allu a'i onestrwydd, ac fe'i penododd i swydd bwysig iawn yn ei wasanaeth.

Bu farw'r Brenin Batori, brenin Gwlad Pwyl, yn 1586. Yn ôl y ddeddf, roedd rhaid i lywodraethwyr y wlad ethol brenin newydd yr union ddiwrnod y bu farw'r brenin. Ond ni allent gytuno pwy fyddai'r brenin hwnnw. Ac felly, awgrymodd Radzivil y gellid penodi rhywun yn frenin dros dro hyd nes y

gellid dod i gytundeb ynglŷn â'r mater. Derbyniwyd awgrym Radzivil y dylid penodi Saul Wahl yn frenin dros dro oherwydd y parch cyffredinol a oedd i'r gŵr ifanc hwnnw. Aeth Saul ati ar unwaith i basio deddfau a fyddai'n gwella amgylchiadau'r Iddewon yng Ngwlad Pwyl a Lithuania. Drannoeth, awgrymodd Saul ei hun pwy fyddai'r benin newydd, a choronwyd Sigismund III i olynu Batori.

Brenin un diwrnod fu Saul. A brenin un diwrnod oedd Iesu i lawer o'r bobl a'i croesawodd i Jerusalem ar Sul y Blodau. Fe'i croesawyd fel y brenin y bu'r genedl yn disgwyl yn hir amdano. Chwifwyd palmwydd; taenwyd dillad, bloeddiwyd 'Hosanna'. Ond i lawer yn y dyrfa honno, nad oeddent wedi deall pa fath o achubiaeth yr oedd y brenin hwn yn ei chynig, brenin un diwrnod ydoedd. Am un diwrnod yn unig y byddent yn ei glodfori.

Nid dyna ydyw wrth gwrs, ond brenin oesol, sy'n teyrnasu ym mywydau ei ddilynwyr ym mhob cyfnod. Ac ar Sul y Blodau daw cyfle i'w gyffesu o'r newydd yn Frenin ein bywydau. Molwn ef; addolwn ef; plygwn iddo a'i glodfori ym mhob peth a wnawn ac a ddywedwn.

Brenin Un Diwrnod? Na! Brenin pob diwrnod yw Iesu. Brenin un diwrnod? Ie! Oherwydd *un diwrnod*, bydd pob glin yn plygu, a bydd pob tafod yn cyffesu 'fod Iesu Grist yn Arglwydd er gogoniant Duw Dad' (Philipiadau 2:11).

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Capel Carmel 'Darganfod y Ffordd Adref' Nos Fawrth, Mawrth 22 am 7.30 o'r gloch

Cynhelir cyfarfod arbennig cyn y Pasg yng Nghapel Carmel, Llanllechid yng ngwmni'r Parchg Casi Jones, Swyddog Adnoddau yr Annibynwyr yn y Gogledd am 7.30 o'r gloch, nos Fawrth, Mawrth 22.

Bydd 'Darganfod y Ffordd Adref' yn gyfle i feddwl am neges y Pasg mewn gwasanaeth gwahanol i'r arfer.

Bydd yn gyfle i wahodd aelodau ac eraill i ddod atom i ddatlu'r Pasg.

Angladd

Ddydd Mercher, Mawrth 16, cynhaliwyd angladd Mrs Jane Parry, Plas Maesincla, Caernarfon (gynt o 37 Lôn Groes, Rachub) yng nghapel Carmel Llanllechid ac yn Amlogfa Bangor dan arweiniad y Gweinidog a'r Parchg Dafydd Coetmor Williams. Mrs Helen Williams oedd yr organydd. Roedd Mrs Parry yn aelod ffyddlon yng Ngharmel ar hyd y blynyddoedd, a gwelwyd ei cholli o'r oedfaon wedi iddi ymgartrefu ym Mhlas Maesincla oddeutu wyth mlynedd yn ôl. Roedd yn wraig hwyliog ac yn gymeradwy iawn ymhlith ei ffrindiau a'i chymdogion. Roedd yn hael ei chroeso ar ei haelwyd, ac yr oedd wrth ei bodd yng nghwmni ei theulu. Cydymdeimlwn â'i merch Carol a'i mab Elwyn a'r teulu cyfan.

Pasg yn y Parc

Mae Cynllun Efe a Trobwynt yn cynnal diwrnod arall i deuluoedd ym Mharc Glynllifon ddydd Gwener yr wythnos hon, sef dydd Gwener y Groglith. Hwn fydd yr ail flwyddyn i ni gynnal 'Pasg yn y Parc', a gobeithiwn y bydd teuluoedd yn heidio i Glynllifon i fwynhau cwmni a chael hwyl wrth ddsygu am wir ystyr y Pasg. Bydd y cyfan yn dechrau am 12.00 o'r gloch ac yn gorffen am 2.30 o'r gloch. Dowch â picnic efo chi. Mae croeso cynnes i deuluoedd a phlant o bob oed. Codir tâl mynediad o £2 i oedolion a £1 i blant. Bydd Andrew yn falch o gael gwybod os ydych yn bwriadu mynd yno, ond peidiwch â chadw draw os na fyddwch wedi mynd gwneud hynny. Gweddiwn am ddiwrnod braf a buddiol.

Balm o Salm



'Bydded yr ARGLWYDD yn amddiffynfa i'r gorthrymedig, yn amddiffynfa yn amser cyfyngder, fel y bydd i'r rhai sy'n cydnabod dy enw ymddiried ynot; oherwydd ni adewaist, ARGLWYDD, y rhai sy'n dy geisio' (Salm 9:9-10).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes, Llanfachreth. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r

gloch gan y Parchg Brian Wright, Cyffordd Llandudno.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Diolch i bawb sy'n gwasanaethu yn yr oedfaon heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Oedfa Deulu a Helfa Wyau Pasg

Bydd Oedfa Deulu arbennig yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch fore Sul nesaf, Sul y Pasg. Bydd y patrwm yn wahanol i'r arfer. Bydd cyfle i'r plant wneud gwaith crefft yn ystod y gwasanaeth. Wedi'r oedfa bydd Helfa Wyau Pasg i'r plant a phaned a chacen i'r oedolion.

Edrychwn ymlaen at groesawu'r plant a'u teuluoedd i'r oedfa hon er mwyn i ni gael dathlu'r Pasg gyda'n gilydd. Croeso cynnes i bawb.

Oedfaon Deiniolen Patrwm newydd

O bosib bod angen ychydig mwy o esboniad ar drefn newydd yr oedfaon yn Neiniolen o heddiw ymlaen. Bydd yr oedfa bob Sul yn cael ei chynnal, un ai a, 5.00 o'r gloch neu yn y pnawn. Fe fydd y manylion yn glir yn Gronyn.

Bydd y Gweinidog fel arfer yn pregethu am 3.30 o'r gloch ar Sul cyntaf y mis ac am 5.00 o'r gloch ar drydydd Sul y mis (fel heddiw).

Y gobaith yw y bydd pobl oedfa'r bore yn dod i'r oedfa a gynhelir yn nes ymlaen yn y dydd am 5.00 o'r gloch neu yn y pnawn. Bydd hyn yn gyfle i ddod â phawb at ei gilydd mewn un oedfa gryfach bob Sul yn Neiniolen.

LLANW 16

Bydd cynhadledd neu wyl LLANW yn cael ei chynnal yng Nghricieth am yr eildro yn ystod yr wythnos wedi'r Pasg, o ddydd Llun, Mawrth 28 hyd nos Iau, Mawrth 31.



Pasg yn y Parc

Diwrnod i deuluoedd ym Mharc Glynllifon

Dydd Gwener y Groglith, Mawrth 25

12.00 – 2.30 p.m.

Dowch â picnic efo chi

Dysgu am wir
ystyr y Pasg.

Oedolion: £2
Plant: £1